
Elysium
Learning Disabilities and Autism



# Ysbyty Cefn Carnau

## Canolfan Adfer Gwarchodaeth Isel ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu

Part of Ramsay Health Care





# **Trosolwg** o Ysbyty Cefn Carnau

Mae Ysbyty Cefn Carnau yn ysbyty pwrpasol gwarchodaeth isel sydd wedi ei leoli yng Nghefn Gwlad Caerffili yn ne Cymru. Mae ein gwasanaethau wedi eu dylunio i gefnogi oedolion 18 oed a hŷn sy'n byw ag anableddau dysgu, awtistiaeth, a chyflyrau iechyd meddwl cysylltiedig, gan gynnwys anhwylderau personoliaethol. Rydym ni'n darparu awyrgylch ddiogel a hamddenol lle gall unigolion weithio tuag at wella ymddygiad sy'n achosi pryder a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn fwy annibynnol a byw yn y gymuned.

## Ein Wardiau

- **Ward Bryntirion** – i fenywod
- **Ward Dderwen** – i ddynion





Yn Ysbyty Cefn Carnau, rydym ni'n credu yng ngrym gofal sy'n rhoi'r unigolyn yn gyntaf. Mae ein dull ni yn cynnwys Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol, sy'n hyrwyddo urddas ac annibyniaeth drwy ddefnyddio arferion sy'n cyfyngu cyn lleied â phosibl ar yr unigolyn

Mae pawb rydym ni'n eu cefnogi yn cael eu hannog i gymryd rhan weithredol wrth siapio'u gofal a'u hadferiad. Rydym ni'n darparu mwy na gofal yn unig - rydym yn meithrin potensial unigolion, ac yn eu helpu i adeiladu dyfodol mewn amgylchedd cynhwysol sy'n rhoi cyfleoedd iddynt ac yn eu grymuso.



Ein nod ni yw rhoi'r dewis a'r rheolaeth i bobl dros eu bywydau eu hun drwy eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau bob dydd ac i gael gafael ar waith addas - boed hwnnw'n waith am dâl neu'n waith gwirfoddol. Rydym ni wedi ymroi i leihau ymddygiad sy'n achosi pryder a gwella ansawdd bywyd unigolion. Mae ein staff i gyd wedi eu hyfforddi'n dda ac yn deall anghenion cymhleth, awtistiaeth, a phrosesau synhwyraidd, er mwyn sicrhau bod y gofal maent yn ei ddarparu yn ystyrlon ac effeithiol.





## Pwy rydym yn eu cefnogi

- Oedolion 18 oed a hŷn
- Unigolion sydd ag anableddau dysgu ac awtistiaeth ysgafn i gymedrol
- Pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, corfforol, ac anghenion synhwyraidd cymhleth
- Unigolion sydd â hanes neu risgiau fforensig
- Unigolion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (diwygiwyd yn 2007), yn unol â Chod Ymarfer Cymru

## Ein Tîm Amlddisgyblaethol (MDT)

- Seiciatrydd Ymgynghorol
- Seicolegydd Fforensig
- Seicolegydd Cynorthwyol
- Cynorthwywyr Cymorth Therapi
- Tîm Therapi Galwedigaethol
- Gweithiwr Cymdeithasol
- Nyrsys Cymwysedig a Chynorthwyydd Gofal Iechyd
- Cefnogaeth ychwanegol fel Therapi Iaith a Lleferydd a Deieteg pan fo angen

## Asesiadau a Therapïau

- Therapi Gwybyddol Ymddygiadol (CBT)
- Therapi Ymddygiad Dialectig (DBT)
- Therapi sy'n canolbwyntio ar Dosturi(CFT)
- Therapi Derbyn ac Ymrwymiad (ACT)
- Dadsensiteiddio ac Ailbrosesu Symudiadau'r Llygaid (EMDR)
- Asesiadau Risg Fforensig (e.e HCR-20, ARMIDILO-S)
- Atal llithro'n ôl a Rheoli Tymer

## Yr Asesiadau Arbenigol sydd ar gael:

- WAIS-IV
- ADOS-2
- ADI-R

Elysium Healthcare



# Awyrgylch sy'n annog pobl i wella, ac sydd wedi ei Dylunio â Phwrpas

Rydym ni wedi dylunio awyrgylch yr ysbyty yn ofalus er mwyn annog pobl i wella mewn lle cysurus. Mae gan bob unigolyn ystafell en-suite fawr a mynediad at ystafelloedd therapi a synhwyraidd, ardaloedd tawel, ac ystafell amlffydd.

Mae gennym Geginau Gweithgareddau Byw Bob Dydd sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu sgiliau bob dydd yr unigolion, campfa ac ardaloedd hamdden a llesiant, lolfa i deuluoedd ac ymwelwyr, a chaffi canolog sy'n rhoi cyfle i bobl sgwrsio a pharatoi at y gweithle.

Rydym yn deall pa mor bwysig yw dyluniad sy'n ystyriol o'r synhwyrau. Mae ein hystafelloedd yn ofodau hamddenol sydd â goleuadau y gellir eu haddasu, ardaloedd ysgogiad isel, ac mae cymhorthion synhwyraidd fel sbectol haul ac amddiffynion clustiau ar gael bob amser. Rydym yn monitro tymheredd yn ofalus, ac mae mapiau synhwyrau ar gael i helpu'r unigolion i deimlo'n gartrefol ac yn hyderus yn yr ysbyty. Mae'r ardaloedd tawel a'r ystafelloedd synhwyrau yn ofodau hamddenol y gellir mynd iddynt i ymlacio a rheoleiddio emosiynau. Rydym ni hefyd yn gweithio â lleoliadau lleol er mwyn rhoi cyfle i'r unigolion ymgysylltu â'r gymuned a chael profiadau amrywiol.









## Cysylltu â ni:

I drafod atgyfeiriad neu i ddysgu rhagor am Ysbyty Cefn Carnau, cysylltwch â ni:

Llinell atgyfeirio 24 awr: **0800 218 2398**

E-bost: **referrals@elysiumhealthcare.co.uk**
neu: **referrals@elysiumhealthcare.co.uk**

Cefn Carnau,
Lôn Cefn Carnau, Thornhill, Cardiff,
De Cymru, CF83 1LX

Ffôn: **02920 883 345**
E-bost: cefncarnau@elysiumhealthcare.co.uk

**Mae'r wybodaeth hon ar gael ar gais mewn ieithoedd gwahanol, Braille, fformat Hawdd ei Deall ac Iaith Arwyddion Prydain**

Elysium Healthcare

Part of Ramsay Health Care

1722/0725

elysiumhealthcare.co.uk